Taflen Ffeithiau
Cwynion yn erbyn

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae hon yn Daflen Ffeithiau am gwynion cyffredinol yn erbyn ysgolion. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'n taflen wybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Os yw'ch cwyn yn ymwneud â derbyn i ysgol, gwaharddiadau o ysgol neu anghenion addysgol arbennig, rydym wedi cynhyrchu taflenni ffeithiau ar wahân, penodol, sy'n edrych ar y pynciau hyn.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Fel yr esbonia'r adran nesaf, mae rôl yr Ombwdsmon o ran cwynion yn erbyn ysgolion yn gyfyngedig iawn. Er ei fod weithiau'n gallu ymchwilio i gwynion yn erbyn gweithredoedd awdurdod o ran ochr weinyddol trefn gwyno neu adolygu, ni fyddai hyn yn cynnwys ystyried y prif faterion sy'n arwain at y gŵyn.

O ganlyniad, er bod modd i'r Ombwdsmon ystyried cwyn fod cyngor lleol (fel rhan o'i swyddogaeth fel Awdurdod Addysg Lleol), er enghraifft, wedi cymryd gormod o amser i adolygu cwyn yn erbyn proses gwyno ysgol, ni allai ystyried y materion a godwyd yn wreiddiol yn y gŵyn i'r ysgol ei hun.

Oherwydd natur gyfyngedig pwerau'r Ombwdsmon o ran materion yn ymwneud ag ysgolion, byddem yn eich annog i gysylltu â'n Tîm Cyngor ar Gwynion cyn anfon cwyn ysgrifenedig atom i weld a yw'r Ombwdsmon yn debygol o allu ystyried eich cwyn.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Mae rôl yr Ombwdsmon yn achos cwynion yn erbyn ysgolion yn cael ei chyfyngu'n fawr gan y gyfraith.

- Ni all yr Ombwdsmon ystyried cwynion yn erbyn unrhyw gamau a gymerwyd gan ysgol neu ei gorff llywodraethu o ran dysgu, ymddygiad, y cwricwlwm, trefniadaeth fewnol, rheoli neu ddisgyblu. Mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd y bydd gan yr Ombwdsmon unrhyw bwerau i ymchwilio i gŵyn yn erbyn ysgol (heblaw am y materion cyfyngedig iawn y cyfeiriwyd atynt uchod neu ynghylch unrhyw faterion penodol sydd wedi cael sylw yn ein taflenni ffeithiau ar wahân a grybwyllwyd uchod) yn isel.

Materion i gadw mewn cof

Nid oes gan Awdurdodau Addysg Lleol ac awdurdodau esgobol (yn achos ysgolion ffydd) rôl statudol o ran datrys cwynion yn erbyn ysgolion gan mai corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am hynny.

Gwybodaeth bellach

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllaw i gyrff llywodraethu ysgolion ar strwythur trefn gwyno ffurfiol. Mae copi o'r canllaw ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/School_Governing_Body_Complaint1?lang=en

Gall y Ganolfan Ymgynghorol ar Addysg (ACE) gynnig cyngor i rieni ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag ysgolion, gan gynnwys bwlio, polisïau derbyn ysgolion, gwahardd ac anghenion addysgol arbennig. Rhif llinell gyngor cyffredinol y Ganolfan yw 0808 800 5793 a chyfeiriad ei gwefan yw http://www.ace-ed.org.uk/

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ac amhleidiol; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn mae'n ei argymell – ond, yn ymarferol, maent yn gwneud hynny bron yn ddieithriad.

Ceir enghreifftiau o'r achosion y mae'r Ombwdsmon wedi ymchwilio iddynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ